

# **PANEL CANIATÂD ARBENNIG Y PWYLLGOR SAFONAU**

## **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2015**

|                                |                                                                                                        |
|--------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>PRESENNOL:</b>              | <b>Aelodau Annibynnol</b><br><br>Mr. Michael Wilson (Cadeirydd)<br>Mr. Islwyn Jones<br>Mrs. Dilys Shaw |
| <b>WRTH LAW:</b>               | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Swyddog Pwyllgor                            |
| <b>HEFYD YN<br/>BRESENNOL:</b> | Neb                                                                                                    |
| <b>YMDDIHEURIADAU:</b>         | Dim                                                                                                    |

### **1 DATGANIAD O DDIDDERDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### **2 CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG**

Cyflwynwyd – cais ar y cyd am ganiatâd arbennig gan Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn mewn perthynas ag adroddiad 'Darparu Clybiau Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd' a fydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor Sir ar 29 Medi, 2015.

Rhoes y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro amlinellid o'r categorïau o ddiddordebau personol sydd wedi eu rhestru ym mharagraff 10 y Côd Ymddygiad a'r prawf ar gyfer diddordebau sy'n rhagfarnu ym mharagraff 12. Eglurodd na fedrir ond rhoddi caniatâd arbennig mewn amgylchiadau penodol a oedd wedi eu rhestru yn Nogfen 3 y dogfennau a oedd ynghlwm wrth yr Adroddiad i'r Panel.

**PENDERFYNODD** y Panel fel a ganlyn:-

- Rhoddir caniatâd arbennig i'r holl Aelodau sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn neu sydd â chydabod agos (teulu neu gyfaill) sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn (neu wasanaeth cyfatebol / tebyg / cysylltiedig mewn ysgol) sy'n golygu y gall Aelodau o'r fath siarad a phleidleisio, ar yr amod fod y mater yn ymwneud â'r holl ysgolion neu nifer o ysgolion;
- Bydd y caniatâd arbennig hwn yn ymestyn i unrhyw drafodaeth yn y dyfodol ar y mater hwn (neu wasanaeth cyfatebol / tebyg / cysylltiedig mewn ysgol) am weddill tymor y Cyngor hwn ac ni fydd angen unrhyw ganiatâd arbennig pellach;
- Bydd Aelodau'n parhau i fod â diddordeb personol dan y Côd a bydd angen iddynt ddatgan y diddordeb hwnnw ar gychwyn y cyfarfod neu ar gychwyn y drafodaeth ar yr eitem berthnasol. Ar y ffurflenni datgan diddordeb, rhaid i Aelodau gadarnhau eu bod yn dibynnu ar ganiatâd arbennig a gafwyd gan y Pwyllgor Safonau ar 24 Medi, 2015.

**MR. MICHAEL WILSON  
CADEIRYDD**